

Cyswllt yr astudiaeth (Lloegr): **0800 085 6807**
Cyswllt yr astudiaeth (Cymru): **0800 917 9323**
Cyswllt yr astudiaeth (Gogledd Iwerddon): **0800 917 5825**
Cyswllt yr astudiaeth (Yr Alban): **0800 917 5824**

Arolwg Heintiadau COVID-19

Cymerwch ran yn yr arolwg cenedlaethol mwyaf o heintiadau COVID-19.
**Bydd eich cymorth yn helpu i lywio'r ymateb i'r pandemig hwn
a mynd yn ôl i fywyd arferol.**

Beth yw'r arolwg?

- Nod yr arolwg yw darganfod faint o bobl sydd â COVID-19, naill ai gyda symptomau neu hebddynt.
- Mae'r arolwg hefyd yn ceisio darganfod faint o bobl sydd eisoes wedi cael COVID-19 neu sydd wedi cael ymateb cryf i frechiad COVID-19 o bosibl, drwy fesur y lefelau o wrthgyrff yn eu gwaed.
- Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i fwy o bobl ddechrau cael eu brechu rhag COVID-19 ac wrth i ni ddechrau monitro pa mor dda y mae'r brechlynnau'n gweithio yn y byd go iawn.
- Ers mis Ebrill 2020, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgol Rhydychen wedi bod yn cynnal yr arolwg ar ran Llywodraethau'r Deyrnas Unedig.



Pam y dylwn i gymryd rhan?

- Er mwyn helpu'r frwydr barhaus yn erbyn COVID-19, mae angen i gartrefi fel eich un chi ymuno â'r miloedd sydd eisoes yn cymryd rhan yn Arolwg Heintiadau COVID-19.
- Drwy gymryd rhan yn yr arolwg hwn, byddwch yn ein helpu i greu darlun o heintiadau COVID-19 yn eich ardal. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod ymatebion lleol yn briodol ac yn effeithiol.
- Nid dim ond profi pobl sydd ag arwyddion o'r feirws, fel twymyn neu beswch, a wnawn, oherwydd rydym yn gwybod y gall pobl gael y feirws heb symptomau weithiau.
- Eich dewis chi yw cymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Mae'r holl wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni wedi'i diogelu gan y gyfraith a chaiff ei thrin yn gyfrinachol.
- Gall pawb yn yr arolwg dderbyn brechiad COVID-19 pan fyddant yn gymwys i wneud hynny – a gall pobl sydd wedi derbyn brechiad COVID-19 fod yn rhan o'r arolwg.

Beth mae cymryd rhan yn yr arolwg yn ei olygu?

- Bydd aelod o dîm yr arolwg yn dod i'ch cartref ac yn gofyn rhai cwestiynau am bob unigolyn dros 2 oed sydd am gymryd rhan.
- Bydd yn dangos i'r rhai sy'n 12 oed a throsodd sut i gymryd swabiau gwddf a thrwyn eu hunain. Byddwn yn gofyn i'r rhieni neu'r gofalwyr gymryd y swab gan blant 2-11 oed. Sbwng meddal ar ffon yw'r swab ac nid yw'n boenus.
- Ni fydd yr aelod o dîm yr arolwg yn dod i mewn i'ch cartref, a bydd yn dod â chyfarpar diogelu personol gydag ef ac yn cadw pellter cymdeithasol.
- Hoffem hefyd gymryd sampl gwaed gan unrhyw un sy'n 16 oed a throsodd. Nid oes rhaid i chi gytuno i hyn.
- Byddwch yn gwneud hyn eich hun drwy gymryd gwaed o bigiad bys, gan ddefnyddio cit y byddwn yn ei ddarparu.

Gallech gytuno i:

- A** un ymweliad yn unig
- B** yr ymweliad cyntaf ac ymweliad bob wythnos am fis (cyfanswm o 5 ymweliad)
- C** yr ymweliad cyntaf, ymweliad bob wythnos am fis, ac yna ymweliadau misol nes daw'r arolwg i ben (cyfanswm o 6 ymweliad o leiaf). Ar hyn o bryd, caiff yr arolwg ei gynnal tan fis Ebrill 2022. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn newid.

▶ I wyllo fideo sy'n dangos sut i gymryd eich gwaed gan ddefnyddio prawf pigiad bys, gweler www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/video-guides

I wyllo fideo sy'n dangos sut i gymryd swab, gweler www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/video-guides

Sut mae cymryd rhan?

I gymryd rhan, bydd angen i chi **gofrestru â ni cyn gynted â phosibl**:

1

Ffoniwch y tîm cofrestru ar **0800 085 6807** (Lloegr), **0800 917 9323** (Cymru), **0800 917 5825** (Gogledd Iwerddon), **0800 917 5824** (Yr Alban). Os na allwch ddefnyddio'r ffôn, er enghraifft oherwydd nam ar eich clyw neu'ch lleferydd, gallwch anfon e-bost i **iqvia.arolwgcovid19@nhs.net**



2

Ar ôl i chi gofrestru, y tro nesaf y byddwch yn clywed gennym yw pan fydd **aelod o dîm yr arolwg yn cysylltu â chi** y noson cyn eich ymweliad arfaethedig.



Os nad yw'r amser hwn yn gyfleus i chi, gallwch ei newid. Byddwn yn ceisio cysylltu â chi yn ystod yr wythnos ar ôl i chi gofrestru.

3

Ar ddiwrnod eich apwyntiad, **bydd aelod o dîm yr arolwg yn ymweld â'ch cartref** er mwyn cwblhau'r arolwg. Ni fydd angen i'r aelod o dîm yr arolwg ddod i mewn i'ch cartref.



Beth fyddaf yn ei gael am gymryd rhan?

- Bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn yr arolwg yn cael taleb gwerth £50 am yr ymweliad cyntaf a gaiff ei gwblhau.
- Am bob ymweliad arall a gaiff ei gwblhau, bydd pob un yn cael taleb gwerth £25.
- Dim ond am yr ymweliadau a gaiff eu cwblhau y bydd talebau yn cael eu rhoi. Os daw'r arolwg i ben, neu os byddwch yn dewis tynnu yn ôl, ni fyddwch yn cael talebau am ymweliadau na chânt eu cynnal.

Beth fydd yn digwydd i fy nata?

- Mae unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni wedi'i diogelu gan y gyfraith a chaiff ei thrin yn gyfrinachol.
- Caiff yr holl samplau eu casglu ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgol Rhydychen.
- Caiff yr holl brofion ar y samplau hyn eu gwneud gan Brifysgol Rhydychen a Labordai Goleudy cenedlaethol.
- Byddwch yn cael gwybod am ganlyniadau'r holl brofion y byddwch yn eu cwblhau.
- Dim ond at ddibenion yr arolwg hwn y bydd y cwmnïau sy'n rhan o'r gwaith o'i gynnal yn defnyddio eich gwybodaeth – darllenwch y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr i gael manylion llawn am yr hyn a fydd yn digwydd i'ch data.
- Mae'r canlyniadau eisoes yn cael eu rhannu fel bod pawb yn gwybod beth rydym yn ei ddysgu (www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/results). Ni fydd modd eich adnabod chi na'ch teulu o'r wybodaeth hon.

Rhagor o wybodaeth a gwefannau defnyddiol:

- ▶ I wyllo fideo sy'n dangos sut i gymryd eich gwaed gan ddefnyddio prawf pigiad bys, gweler www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/video-guides
- I wyllo fideo sy'n dangos sut i gymryd swab, gweler www.ndm.ox.ac.uk/covid-19/covid-19-infection-survey/video-guides

Mae rhai cyfieithiadau o'r crynodeb hwn a gwybodaeth arall am yr arolwg ar gael yn www.ons.gov.uk/cis/languages

I ddysgu mwy, darllenwch y daflen wybodaeth fanwl i gyfranogwyr a ddaeth gyda'r daflen hon, neu ewch i cy.ons.gov.uk/cis

Os oes unrhyw rai o'r materion a godir yn y daflen hon yn effeithio arnoch chi neu os ydych yn chwilio am wybodaeth am COVID-19, ewch i:

- Coronavirus explained: coronavirusexplained.ukri.org/en/
- Canllawiau'r llywodraeth: www.gov.uk/coronavirus (Lloegr), www.gov.wales/coronavirus (Cymru), www.nidirect.gov.uk/campaigns/coronavirus-covid-19 (Gogledd Iwerddon), www.gov.scot/collections/coronavirus-covid-19-guidance/ (Yr Alban)
- Cyngor y GIG: www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/ (Lloegr), www.gov.wales/coronavirus (Cymru), www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-overview-and-advice (Gogledd Iwerddon), www.nhsinform.scot/illnesses-and-conditions/infections-and-poisoning/coronavirus-covid-19 (Yr Alban)
- Y Samariaid – Cymorth emosiynol i bawb: www.samaritans.org
- Mind – Cyngor a chymorth i unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl: www.mind.org.uk